

Clwb Golff Dinas Powys


Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg



Adfeilion eglwys ym mryngaer Caerau

Ffotograff (H) G.Woosnam

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.

Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.



Grisiau Eogiaid ger Llanfihangel-y-pwll

Ffotograff (H) G.Woosnam



Cwm Siôr

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- **Castell Dinas Powys**
- **Heol y Cawl, Dinas Powys**
- **Cwm Siôr**
- **Grisiau Eogiaid**
- **Bryngaer Caerau ac Eglwys Adfeiliedig**
- **Golygfeydd o'r Wlad**



Llwybr Rhiwng y ffawydd

Ffotograff (H) A.Wilson

## DILYNWCH GÔD Y CERDDWYR

- Gwyliwch rhag tân bob amser
- Clowch bob clwyd
- Cadwch gŵn o dan reolaeth
- Dilynwch lwybrau cyhoeddus wrth groesi tir ffermydd
- Croeswch ffensys, waliau a pherthi wrth glwydi a chamfeydd
- Ewch â'ch ysbwriel adref
- Gwarchodwch yr holl fywyd gwyllt, planhigion a choed

make tracks with Valeways

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Cefnogwyd gan Supported by

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

cerdded llwybr iechyd walking the way to health

Environment Wales Amgylchedd Cymru

Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri, Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000

E-bost: info@valeways.org.uk

Gwefan: http//www.valeways.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088

*Taith Gerdded 36, Dinas Powys*

# Taith Gerdded Grisiau Eogiaid

Pellter: 5 milltir.



Grisiau Eogiaid

make tracks with Valeways


Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg


*Taith Gerdded 36 Dinas Powys*

# Taith Gerdded Grisiau Eogiaid

**Taith gerdded hyfryd yw hon sy'n eich arwain drwy ddyffryn rhewlifol a cheunentydd coediog a heibio i raeadrau trawiadol. Hefyd cewch ddewis ymestyn eich taith er mwyn gweld Castell Dinas Powys a/neu'r Fryngaer yng Nghaerau sy'n dyddio o Oes yr Haearn. Mae llwybrau amlwg bron pob cam o'r ffordd er bod llethrau a phantiau fan hyn a fan draw. Bydd y llwybrau weithiau'n lleidiog iawn, yn enwedig y rhai sy'n arwain at y Fryngaer.**

**Pellter** Y Brif Daith Gerdded: 5 milltir; Castell: 1/2 milltir yn ychwanegol;
**Bryngaer** 2 1/2 filltir yn ychwanegol.
**Dechrau** Cyfeirnod Grid 154716 (Map Ordnans 151, Explorer) yw'r fan gychwyn fwyaf cyfleus.
**Parcio** Wrth y Fan Gychwyn a nodwyd yn y canllawiau mae maes parcio bach (ar gyfer 3 neu 4 car) gyferbyn â heol Millbrook.
**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Trenau a bysiau i Ddinas Powys
**Bwyd a Diod** Dim byd i'w gael ar y daith ei hun (er bod safleoedd da ar gyfer picnic), ond mae tair tafarn gerllaw yn Ninas Powys.

**MAN CYCHWYN** - Cyfeirnod Grid 154716 (Map Ordnans 151, Explorer) yw'r lle hawsaf i gychwyn.




## Y LLWYBR

Ⓒ O'r maes parcio, trowch i'r dde. Mae cyfle bellach i chi gerdded i'r Castell.

**Taith i'r Castell.** Cymerwch y troad cyntaf ar y dde i Lettons Way. Cerddwch ymlaen am ychydig am fwy na 1/4 milltir nes i chi gyrraedd y castell ❶. Byddwch yn ofalus wrth ymyl yr adfeilion am eu bod mewn cyflwr truenus. *(Ewch yn ôl yr un ffordd er mwyn ailymuno â'r brif daith gerdded).*

Ewch yn eich blaen ar hyd y brif heol, heibio i Eglwys Sant Pedr, yna trowch i'r dde i Heol y Cawl. ❷ Cerddwch ar hyd y lôn serth heibio i Eglwys Ebeneser ac yna i'r dde i heol Highwalls sy'n arwain at Glwb Golff Dinas Powys. Ewch i mewn i'r Maes Golff ar y dde i adeiladau'r clwb, yna trowch i'r dde unwaith eto ac ewch ar hyd llwybr sydd wedi'i farcio'n amlwg. Dilynwch y llwybr hwnnw gan gadw'r clawdd ar eich ochr dde. Chwiliwch am y llwybr sy'n arwain drwy'r coed i lawr y llethr (nid oes llawer o arwyddion) a'i ddilyn. Byddwch yn croesi dwy gamfa ac yn dod at gyffordd. Trowch i'r chwith yn y fan honno ac ewch drwy gât mochyn. Rydych bellach yn nyffryn serth Cwm Siôr ❸. Dilynwch y llwybr rhwng y ffawydd a'r masarnwydd ar hyd gwaelod y cwm.

Yn y gwanwyn bydd yr holl ardal hon wedi'i gorchuddio â blodau gwyn craf y meysydd.

Wrth ddynesu at ben y dyffryn hwn a'i holl goed, sylwch ar glogwyn calchfaen serth ar y chwith a safle hen gaer o Oes yr Haearn ar y dde ar ben bryn coediog. Mae bencydd amddiffynnol y gaer yn weddol amlwg o hyd ac felly mae'n sicr yn werth ei harchwilio os oes gennych ddiddordeb mewn archeoleg. Cadwch at y prif lwybr, ewch heibio i sedd goffa ar y chwith a cherddwch ymlaen nes i chi goetir ddod i ben ar y ddwy ochr. Gwelwch fwrdd hysbysebu yn y fan honno a gât mochyn. O hyn ymlaen bydd y llwybr yn arwain ar draws tir agored am yn agos i 1/2 milltir nes cyrraedd y lôn wrth ymyl Llanfihangel-y-pwll.

Ewch i'r chwith a dilynwch yr heol i fyny'r llethr am ychydig gan fynd heibio i fwthyn to gwellt ar y dde nes i chi gyrraedd camfa newydd ar y chwith o dan arwydd amlwg. Mae hon yn arwain at lwybr newydd (nad oes sicrwydd eto a fydd yn llwybr parhaol) sy'n disgyn at lan yr afon (Nant Wrinstwn). Adwaenir y rhaeadrau prydferth ar y chwith fel 'The Salmon Leaps' ❹ neu Risiau Eogiaid).

O'r fan honno, mae'r llwybr a'i gamfeydd yn arwain drwy ddarn hyfryd o goetir lle mae amrywiaeth eang a diddorol o blanhigion daear. Ewch dros gamfa wedyn i gae agored. Cerddwch i'r un cyfeiriad ar draws y cae at gamfa arall a phostyn lle mae amryw o arwyddion. Ewch i'r dde i fyny'r llethr ar hyd y rhodfa goncrit, yna trowch i'r dde eto nes eich bod bron yn dyblu'n eich ôl, a dilynwch lwybr creigiog ar lethr ysgafn sydd o dipyn i beth yn datguddio golygfeydd ehangach o Fôr Hafren ac arfordir Gwlad yr Haf y tu ôl i chi.

Cerddwch heibio i ddau bolyn telegraff pren ar bwys ei gilydd, yna trowch i'r dde'n ar unwaith wrth y gyffordd a dilynwch lwybr tebyg sy'n arwain i fyny llethr i ddechrau a chwedyn yn ymdroelli i lawr drwy'r goedwig i ymuno â'r lôn i bentref Llanfihangel-y-pwll.

Yn y fan honno bydd gan y cerddwr ddewis. Os ydych yn dilyn y brif daith gerdded 5 milltir, trowch i'r dde. Os ydych yn bwriadu ymweld â'r Fryngaer yng Nghaerau ❺ trowch i'r chwith.

**Y Daith i'r Fryngaer.** Sylwch y byddwch yn mynd i'r gaer ac yn dychwelyd ar hyd yr un ffordd os ewch ar y daith ychwanegol hon. Ar ôl troi i'r chwith bydd yn rhaid i chi groesi camfa bron ar unwaith a cherdded am ryw 3/4 milltir wedyn drwy ddyffryn gwyrddlas isel Nant Bullcroft. Gwyrwch i'r chwith wrth glwyd fetel gan fynd heibio i gae pêl-droed ar y chwith a cherddwch o dan yr A4232. Ar ôl cyrraedd stad newydd o dai, ewch i'r dde'n syth ac i fyny rhiw ar hyd llwybr concrit. Cyn bo'n hir iawn, dewch i gamfa ar y chwith. Ewch drosti ac i fyny rhiw fach weddol serth nes i chi gyrraedd y cae agored y tu fewn i'r fryngaer. Os cerddwch ymlaen am ychydig, dewch i eglwys adfeiliedig lle cafodd tipyn o waith adfer ei wneud. Lle bendigedig am bicnic yw hwn. Os ewch led cae ymhellach y tu hwnt i adfeilion yr eglwys, cewch olygfeydd bendigedig dros y rhan fwyaf o Ddinas Caerdydd.
*(Ewch yn ôl yr un ffordd yn awr at y fan lle gadawsoch y brif daith gerdded).*

Ar ôl troi i'r dde ar y brif daith, ewch ar hyd y lôn i lawr y llethr a heibio i Dŷ Cwrt yr Ala, a chyn bo hir byddwch yn ôl lle gadawsoch y llwybr ar eich taith allan i fynd i raeadrau Grisiau Eogiaid. Cerddwch heibio i'r bwthyn to gwellt sydd bellach ar eich ochr chwith ac i'r fan lle aethoch i'r heol hon o Gwm Siôr. Byddwch wedyn yn cyrraedd tro yn y ffordd. Yn y fan honno, ar eich ochr dde, gwelwch gamfa wrth ymyl clwyd. Ewch drosti ac ar draws y cae nesaf a chroeswch y bompren newydd ar y dde. Trowch i'r chwith wedyn a cherddwch ar hyd y llwybr sydd braidd yn annelwig gydag Afon Dregatwg ar eich ochr chwith. Bydd yr afon honno'n aros ar eich ochr chwith am weddill y daith gerdded. Ar ôl croesi dwy gamfa, byddwch yn cyrraedd llwybr bychan. Ewch yn syth ymlaen heibio i bont gerbydau ar y chwith. Cyn bo'n hir iawn, gwelwch gamfa ar y chwith. Croeswch honno a dilynwch y llwybr sy'n rhedeg yn fwy neu lai'n gyfochrog â'r afon ar y chwith. Ar y ffordd, ewch dros ddwy gamfa arall rhwng y pyst gwasgu a heibio i sedd wrth ymyl yr afon, ac ychydig ymhellach ymlaen gwelwch drydedd gamfa ar y dde. Dyma'r ffordd i mewn i'r coed i'r rhai sionc yn eich plith sy'n teimlo fel mynd am dro yn y fan honno.

Arhoswch ar lwybr y cae, ewch dros gamfa a llwybr bach arall (mae arwydd bychan Croeso yn y fan honno) yna cerddwch ymlaen i'r un cyfeiriad a heibio i dai gwydr ar y chwith nes i chi ddod yn ôl i'ch man gychwyn.

## MANNAU O DDIDDORDEB

**❶ Castell Dinas Powys**
Yn dyddio'n ôl i ddechrau'r cyfnod Normanaidd. Tŵr a Chysylltfur o'r ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg.

**❷ Heol y Cawl.(Broth Lane)**
Un o'r strydoedd hynaf yn Ninas Powys. Bythynnod o'r ddeunawfed ganrif.

**❸ Cwm Siôr**
Ceunant a grëwyd gan ddŵr wrth i'r iâ ddadlaith ar ddiwedd Oes ddiwethaf yr Iâ. Bellach mae'n ddyffryn coediog a chanddo glogwyni calchfaen uchel. Mae bryngaer o Oes yr Haearn ac anheddfa yn y goedwig sy'n dyddio'n ôl i ddiwedd yr Oesoedd Tywyll.

**❹ Grisiau Eogiaid**
Nifer o raeadrau a grëwyd gan goredau yn nyfroedd isaf Nant Wrinstwn.

**❺ Bryngaer Caerau**
Bryngaer o Oes yr Haearn. Cododd y Normaniaid adeiladau arni'n ddiweddarach yn ystod yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed ganrif. Adeiladodd y Normaniaid gaer ar gornel ddwyreiniol y gwersyll cynharach. Safai hen eglwys y plwyf y tu ôl i'r prif fagwyrydd. Caewyd yr eglwys honno'n ystod y 1950au.